



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Ysbyty Ystrad Fawr

Uned Llawfeddygaeth Ddydd

Taflen Wybodaeth i Gleifion



Gofalgar, effeithlon ac yn canolbwyntio ar y claf; Mae ein huned Llawfeddygaeth Ddydd GIG yn ymroddedig i'ch lles ac i ddarparu gofal llawfeddygol eithriadol.

Beth yw Llawfeddygaeth Ddydd?

Llawdriniaeth neu driniaeth lawfeddygol nad yw'n cynnwys aros dros nos yn yr ysbyty yw llawfeddygaeth ddydd. Mae cleifion yn cael eu derbyn ar ddiwrnod eu triniaeth, ac yn mynd adref ar yr un diwrnod. Mae Uned Llawfeddygaeth Ddydd Ysbyty Ystrad Fawr (YYF) ar agor o 07:00 tan 12:00 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn.

Yr oriau ymweld yw 6:00pm-8:00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener – ni chaniateir ymwelwyr ar y ward y tu allan i'r oriau hyn, fodd bynnag mae ystafell aros ar gael.

Mae gan Uned Llawfeddygaeth Ddydd YYF gyfleusterau cymysg, gan gynnwys ystafelloedd sengl a baeau llawfeddygaeth ddydd. Mae loceri ar gael ar gyfer eitemau bach fel ffonau, gemwaith a meddyginiaethau.

Gwybodaeth Ymprydio

Peidiwch â bwyta ar ôl 02:00am ar fore eich llawdriniaeth. Yfwch ddiod o hylifau clir (dŵr, diod ffrwythau, te du neu goffi du) cyn 06:00am. Gallwch barhau i sipian dŵr (dim mwy nag 1 cwpan) bob awr ar ôl 6am.

Rhestr wirio o bethau i ddod gyda chi:

- Unrhyw feddyginiaethau neu anadlyddion rydych chi'n eu cymryd.
- Gŵn tŷ a sliperi (os oes rhai gennych chi).
- Rhywbeth i'w ddarllen / ffôn symudol ac ati.
- Enw a rhif ffôn y berthynas neu'r ffrind a fydd yn eich casglu ar ôl eich triniaeth.
- Ni all Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw bethau gwerthfawr y mae cleifion yn dod â nhw i'r uned. Ni chaniateir i gleifion fynd â'u ffonau symudol i mewn i theatrau tra byddant yn cael eu llawdriniaeth.

Yn Ystod Eich Arhosiad

Ar ôl cyrraedd yr Uned Llawfeddygaeth Ddydd, rhowch wybod i'r Dderbynfa. Yna cewch eich tywys i ardal aros, lle bydd staff yn dechrau eu gwiriadau diogelwch ac yn eich paratoi ar gyfer eich triniaeth. Nid yr amser penodol y gofynnir i chi gyrraedd yr uned yw'r amser y byddwch yn cael eich triniaeth; gallai eich triniaeth ddigwydd ar unrhyw adeg yn ystod y dydd. Byddwch yn yr uned am sawl awr, ac mewn rhai achosion y diwrnod cyfan.

Bydd unrhyw amseroedd a roddir yn ddangosol. Cofiwch fod yr union amser y mae llawdriniaeth yn dechrau yn dibynnu ar y triniaethau eraill ar y rhestr. Gall amser adfer hefyd amrywio – gall rhai cleifion gymryd mwy neu lai o amser i wella nag eraill.

Mae gan ein ward llawfeddygaeth ddydd doiledau a baeau cymysg. Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'ch preifatrwydd neu'ch urddas yn y math hwn o lety, rhowch wybod i'r nyrs sy'n gofalu amdanoch a byddwn yn gwneud popeth posibl i barchu eich dymuniadau. Mewn rhai ardaloedd fel adferiad, mae'n rhaid i ni letya rhywiau cymysg gyda'i gilydd. Gwneir pob ymdrech i barchu preifatrwydd ac urddas cleifion yn yr ardaloedd hyn trwy ddefnyddio sgriniau/llenni.

Bydd aelod o staff yn eich casglu o'r ardal aros ac yn eich tywys i'ch ystafell neu'ch bae â llen.

Ar ôl cwblhau'r driniaeth, byddwch yn cael eich trosglwyddo i adferiad cam 1af a byddwch yn aros yno nes eich bod yn gwbl effro ac yn gyfforddus. Yna byddwch yn cael eich cludo ar droli neu mewn cadair olwyn i adferiad 2il gam yn ein ward llawfeddygaeth ddydd i gael gofal ôl-lawdriniaeth.

Yma byddwch yn cael eich annog i:

- symud
- defnyddio'r ystafelloedd ymolchi
- bwyta
- yfed
- gwisgo
- paratoi i gael eich rhyddhau

Mae Ward Rhymni yn YYF ar agor 24 awr y dydd, fodd bynnag mewn achosion prin efallai y bydd cleifion sydd angen gofal uwch yn cael eu trosglwyddo i safle ysbyty arall, h.y. Ysbyty Athrofaol y Faenor.

Ar ôl eich llawdriniaeth, bydd eich poen yn cael ei reoli mewn sawl ffordd wahanol. Mae hyn yn cynnwys Paracetamol ar gyfer y mwyafrif o gleifion. Mae'n debygol y byddwch yn cael y dos cyntaf cyn eich llawdriniaeth, er mwyn iddo fod yn gweithio erbyn i'ch llawdriniaeth orffen. Mae defnydd rheolaidd o'r cyffuriau lleddfu poen syml hyn yn lleihau'n sylweddol faint o gyffur lleddfu poen cryfach y bydd ei angen arnoch ac felly'n lleihau'r sgil-ffeithiau sy'n gysylltiedig â'r cyffuriau cryfach hyn.

Wrth adael yr ysbyty, byddwch yn cael y canlynol:

- Cyngor ar ofalu am eich clwyfau/rhwymynnau.
- Cyngor a/neu hosanau cywasgu a/neu bigiadau i leihau clotiau gwaed.
- Manylion cyswllt os oes gennych unrhyw bryderon ac os oes angen cyngor ôl-lawdriniaeth arnoch.
- Rydym yn eich cynghori i gadw cyflenwad o gyffuriau lleddfu poen syml gartref, fel paracetamol ac ibuprofen. Os oes angen unrhyw feddyginiaeth bellach arnoch, bydd yr ysbyty yn darparu hyn.
- Gwybodaeth am unrhyw apwyntiadau dilynol sydd eu hangen.

SICRHEWCH fod gennych rywun i'ch casglu o'r ysbyty a bod eu manylion cyswllt gennych.

SICRHEWCH fod oedolyn cyfrifol yn cadw llygad arnoch am 24 awr ar ôl i chi gael eich rhyddhau (bydd hyn yn dibynnu ar y driniaeth a gawsoch).

PEIDIWCH â mynd adref ar eich pen eich hun mewn tacsï neu ar drafnidiaeth gyhoeddus.

PEIDIWCH â gyrru am o leiaf 24 awr ar ôl eich anesthetig cyffredinol. Efallai bydd angen osgoi gyrru am gyfnod hirach, a bydd yn dibynnu ar gyngor eich anesthetydd/llawfeddyg.

Llwybr i'r Llawdriniaeth

Clinig Cyn-asesu

Lle bydd nyrs cyn-asesu neu anesthetydd yn dod i siarad â chi

Derbyn

Cyrraedd uned Ysbyty Ystrad Fawr erbyn 7:00am, fodd bynnag, efallai y bydd amseroedd mynediad yn cael eu gwasgaru

Llawdriniaeth

Efallai y bydd gofyn i chi aros gyda chleifion eraill. Mae gan YYF rai ystafelloedd sengl ac ystafelloedd 3 bae.

Cam Adfer 1^{af}

Dyma lle byddwch chi'n deffro ar ôl eich triniaeth

2^{il} Gam Adfer

Yn Ward Rhymni y bydd hyn. Dyma lle byddwn yn sicrhau eich bod yn barod i gael eich rhvddhau.

Rhyddhau o'r uned erbyn
21:30pm

Rhifau cyswllt defnyddiol ar ôl llawdriniaeth

Llawfeddygaeth Ddydd Ysbyty Brenhinol Gwent – 01443 802636/ 01443 802554

Uned Asesu Lawfeddygol – 01633 493341

Uned Asesu Gynaecoleg – 01633 493556

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /

This document is available in English